Senedd Cymru
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
—
Welsh Parliament
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Elin Jones AS

Cadeirydd y Pwyllgor Busnes Committee

11 Mehefin 2020

Annwyl Elin,

Cais am Ddadl yn y Cyfarfod Llawn

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi cytuno ar adroddiad ynghylch effaith COVID 19 ar sector y celfyddydau ar 5 Mehefin.

Dyma'r adroddiad cyntaf mewn cyfres o adroddiadau byr ar gyfer ein hymchwiliad i effaith y pandemig ar sefydliadau o fewn ein cylch gorchwyl.

Mae ein Haelodau o'r farn bod y materion yn yr adroddiad yn rhai brys, a hoffent gael y cyfle i'w trafod yn y Cyfarfod Llawn. Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion ynghylch parhad cyllid argyfwng ar gyfer y sector a'r angen am arweiniad ynghylch ailagor lleoliadau, sydd ill dau yn faterion sy'n sensitif o ran amser ac angen eu trafod gan yr holl Aelodau mewn Cyfarfod Llawn cyn gynted â phosibl.

Yn ystod trefn arferol busnes, mae'r cytundeb gyda Llywodraeth Cymru yn caniatáu cyfnod o 30 diwrnod gwaith iddi ymateb i argymhellion gan bwyllgor. Mae hyn yn golygu y disgwylir ymateb i argymhellion yr adroddiad yn ystod Toriad yr Haf. Oherwydd natur sensitif y mater o ran amser, mae aelodau'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal y ddadl cyn cael ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried ein cais am ddadl yn y Cyfarfod Llawn cyn gynted â phosibl, o fewn rheswm. Byddaf wedyn yn rhoi gwybod i'r Dirprwy

Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth o'n bwriad i gynnal y ddadl cyn cael ymateb Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,

Helen Mary Jones

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu